

CYNGOR SIR Y FFLINT
ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

CYNNIG I OSOD CROESFAN I GERDDWYR AR Y B5125 NORTHOP HALL

RHODDIR RHYBUDD drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig;

a) Gosod Croesfan Cerddwyr Sebra yn y lleoliad fel y disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Rheswm dros y Cynnig: Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi'r B5125 Village Road, Northop Hall, y Fflint fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan sebra. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan a fydd yn helpu siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol. Bydd y groesfan yn helpu i leddfu pryderon diogelwch mewn perthynas â mynediad uniongyrchol i'r ysgol yn ogystal â sicrhau buddion i'r gymuned ehangach.

Bydd y gwaharddiadau arferol yn erbyn cerbydau yn stopio, aros, llwytho a dadlwytho ar y gerbyddfordd o fewn yr ardaloedd â llinellau igam ogam ar naill ochr y groesfan yn berthnasol.

Er diogelwch yn ystod y Pandemig COVID-19, os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn a cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y cynnig, cynghorir eich bod yn eu darllen ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch wneud cais am gopi o'r dogfennau trwy anfon e-bost at streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig uchod at yr unigolyn isod i'r cyfeiriad isod (gan ddyfynnu cyfeirnod SJ/TRO/LS) erbyn dydd Gwener 5 Mawrth 2021.

ATODLEN


Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr

B5125 Northop Hall - ger y gyffordd â Llys Ben.

Dyddiedig y 12 Chwefror 2021



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR





Sir y Fflint
Flintshire
 COUNTY COUNCIL

Steve Jones
 Chief Officer (Streetscene and Transportation).
 Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
 Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY:
 NGW

CHECKED BY:
 CP

SCALE:
 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF:
 327837
 363930

PRELIMINARY	<input checked="" type="checkbox"/>	APPROVAL	<input type="checkbox"/>	CONSTRUCTION	<input type="checkbox"/>
AMENDMENTS:			DATE		

B5125
 Northop Hall
 Proposed Zebra Crossing

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER

HT/20/0000
101
P1